CHWARAE TEG?

TROSOLWG I ATHRAWON

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau *Chwarae Teg?*
- Cysylltiadau â'r Cwricwlwm
- Strwythur *Chwarae Teg?*
- Gwahaniaethu
- Grŵp oed
- Amseru
- Disgrifiad manwl o'r adnodd
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaeth

Cyflwyniad

Y Gemau Olympaidd

O fis Awst i fis Medi 2016, bydd llygaid y byd ar Rio de Janeiro, ail ddinas fwyaf Brazil a'r ddinas a fydd yn llwyfannu'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd. Bydd tua 10,500 o athletwyr o 206 gwlad yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd, gyda 4,350 athletwr o 176 gwlad yn cymryd rhan yn y Gemau Paralympaidd.

Ond a yw pob gwlad sy'n cymryd rhan yn gydradd neu'n gyfartal? Mewn gwirionedd, mae gwahaniaethau mawr rhwng incwm a chyfleoedd bywyd rhwng gwledydd, yn ogystal â rhwng pobl o fewn yr un wlad. Ydy hyn yn deg? Nid cwestiwn i'r Gemau Olympaidd yn unig yw hwn, ond hefyd i fywyd yn fwy cyffredinol.

Mae'r adnodd hwn yn defnyddio'r Gemau Olympaidd i ymgysylltu dysgwyr yn feirniadol â'r cwestiwn hwn: Ydy'r byd yn lle teg? Drwy ystyried hyn, byddant yn meddwl yn ofalus am un mater byd-eang cyfredol allweddol – anghydraddoldeb. Bydd y dysgwyr yn cymharu data o'r gwledydd a gymerodd ran yng Ngemau Olympaidd Llundain 2013, gan gynnwys cyfanswm eu medalau Olympaidd, nifer yr athletwyr a gymerodd ran a'r incwm cyfartalog y person. Byddant yn ystyried pa ffactorau a allai effeithio ar y cyfleoedd i ennill medal neu i gymryd rhan mewn camp Olympaidd ac yn sylweddoli bod gan athletwyr mewn rhai gwledydd fynediad i gyfleusterau, adnoddau a hyfforddiant gwell nag eraill.

Bydd y dysgwyr yn dod i wybod rhagor am Rio de Janeiro, y ddinas sy'n llwyfannu'r gemau, lle mae anghydraddoldeb wedi bod yn broblem enfawr ers nifer o flynyddoedd. Byddant yn dysgu am rai o'r rhesymau pam mae rhai pobl yn Rio de Janeiro o blaid cynnal y Gemau Olympaidd yn y ddinas ac mae eraill yn ei erbyn. Er bod llawer o bobl yn edrych ymlaen at y gemau, mae protestiadau wedi bod hefyd, gan fod llawer o ddinasyddion yn teimlo na ddylai symiau mawr o arian gael eu gwario ar

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

ddigwyddiadau chwaraeon enfawr mewn gwlad lle mae angen datblygu gwasanaethau sylfaenol o hyd.

Yn olaf, bydd y dysgwyr yn defnyddio chwaraeon i feddwl am sut mae tegwch yn gysylltiedig â rheolau. Byddant yn ystyried sut mae rheolau'n cael eu defnyddio i wneud i'r Gemau Olympaidd fod yn deg, wrth ystyried y ffaith ei bod hi'n haws i rai pobl gael mynediad i rai campau Olympaidd nag y mae i bobl eraill. Wedyn bydd y dysgwyr yn cynllunio ac yn cynnal "Diwrnod Chwarae Teg" ac yn ystyried pa gamau y gellid eu gwneud i wneud i'n byd fod yn lle tecach.

Anghydraddoldeb

Thema sylfaenol *Chwarae Teg?* yw anghydraddoldeb, sy'n cyfeirio at wahaniaethau eang mewn poblogaeth o ran eu cyfoeth, eu hincwm a'u mynediad i wasanaethau hanfodol fel iechyd ac addysg. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau yn yr un wlad, neu rhwng gwledydd. Hefyd gall anghydraddoldeb fod yn berthnasol i gyfleoedd anghydradd (cyfleoedd bywyd) a chanlyniadau anghydradd.

Bellach mae bwlch sy'n tyfu'n gyflym i'w weld rhwng y cyfoethog a'r tlawd mewn nifer o wledydd o gwmpas y byd. Rydym bellach yn byw mewn byd lle mae'r 62 person cyfoethocaf yn berchen ar yr un cyfoeth â hanner tlotaf poblogaeth y byd (3.6 biliwn o bobl). [1] Mae saith o bob 10 o bobl yn y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Petai holl gyfoeth y byd yn cael ei rannu'n ddau, byddai bron i hanner yn mynd i'r 1% cyfoethocaf a'r hanner arall i 99 y cant y boblogaeth sy'n weddill. [2] Mae anghydraddoldeb yn broblem gynyddol yn y DU. Mae'r pum teulu cyfoethocaf yn y DU bellach yn fwy cyfoethog na 20 y cant gwaelod y boblogaeth (12.6 miliwn o bobl).[3]

Nodau *Chwarae Teg?*

- Defnyddio data go iawn a'r Gemau Olympaidd i ymgysylltu â dysgwyr ac i'w galluogi i weld perthnasedd ymarferol mathemateg, Cymraeg, daearyddiaeth ac addysg gorfforol yn y byd o'u cwmpas.
- Annog arddulliau addysgu a dysgu cyfranogol, ymchwiliol a chydweithredol.
- Hyrwyddo meddwl beirniadol am faterion a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â themâu anghydraddoldeb a thegwch.
- Cynorthwyo athrawon i gyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yn y pynciau canlynol: daearyddiaeth, mathemateg, Cymraeg.
    - Mewn mathemateg: Datblygu'r dysgwyr mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys canrannau; darllen graddfeydd; dehongli data a llunio siartiau bar.

[1] *An Economy for the 1%: How privilege and power in the economy drive extreme inequality and how this can be stopped* (Deborah Hardoon, Ricardo Fuentes-Nieva and Sophia Ayele, Oxfam International, 2016)
[2] *Working for the few: Political capture and economic inequality* (Ricardo Fuentes-Nieva and Nick Galasso, Oxfam International, 2014)
policy-practice.oxfam.org.uk/publications/working-for-the-few-political-capture-and-economic-inequality-311312
[3] *A Tale of Two Britains: Inequality in the UK* (Sarah Dransfield, Oxfam, 2014)
policy-practice.oxfam.org.uk/publications/a-tale-of-two-britains-inequality-in-the-uk-314152

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

- Mewn daearyddiaeth: Datblygu'r dysgwyr mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys gwybodaeth leoliadol; sgiliau mapiau; a dealltwriaeth o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau daearyddol rhwng lleoedd.
- Mewn Cymraeg: Datblygu'r dysgwyr mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys siarad Cymraeg safonol yn hyderus ac yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol; mabwysiadu, creu a chynnal amrywiaeth o rolau ac ymateb yn briodol i eraill mewn rôl; ac ystyried a gwerthuso gwahanol safbwyntiau.
- Mewn addysg gorfforol: Datblygu'r dysgwyr mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys cyfathrebu a chydweithredu; rhedeg, sgiliau taflu a dal; cymryd cyfrifoldeb dros drefnu digwyddiad corfforol; a sicrhau confensiynau chwarae teg, cystadleuaeth onest, ymddygiad da wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a bod yn wylwyr gwybodus.

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd

Mae'r adnodd trawsgwricwlaidd hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes pwnc: daearyddiaeth, Cymraeg, mathemateg ac addysg gorfforol. Mae rhai gweithgareddau'n cysylltu â meysydd eraill o'r cwricwlwm, fel ABCh a dinasyddiaeth. Mae nifer o ffyrdd y gellid datblygu dysgu a dealltwriaeth ymhellach ac mae pob sesiwn yn cynnig syniadau ar gyfer hyn. Awgrymir gweithgareddau ar gyfer defnyddio dull dinasyddiaeth fyd-eang ar draws y cwricwlwm i edrych ar themâu'r Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd ac anghydraddoldeb yn *Syniadau trawsgwricwlaidd*.

Strwythur *Chwarae Teg?*

Mae'r adnodd yn darparu pedair sesiwn, un yr un ar gyfer pob un o'r meysydd pwnc canlynol: daearyddiaeth, Cymraeg, mathemateg ac addysg gorfforol. Yn ogystal mae Sioe sleidiau gychwynnol gyda chwis am y Gemau Olympaidd a chyflwyniad i'r adnodd a'r thema anghydraddoldeb. Awgrymir bod y dysgwyr yn gweld y Sioe sleidiau gychwynnol cyn gwneud unrhyw un o'r sesiynau penodol i bwnc. Gellid defnyddio'r cyflwyniad hwn yn ystod amser dosbarth neu ddosbarth cofrestru, neu mewn gwasanaeth. Yn ddelfrydol bydd y dysgwyr yn cwblhau pob sesiwn ar gyfer pob un o'r pedwar pwnc; fodd bynnag rydym yn sylweddoli efallai na fydd gweithio mewn ffordd drawsgwricwlaidd yn bosibl ym mhob ysgol, felly rydym wedi sicrhau y gall athrawon unigol ddefnyddio pob sesiwn mewn maes pwnc fel adnodd annibynnol.

Rydym wedi ceisio cadw'r adnoddau mor hyblyg ag sy'n bosibl o fewn pob maes pwnc, fel y gall athrawon greu teithiau dysgu wedi'u personoli i'w dysgwyr, ac ar yr un pryd gadw'r neges anghydraddoldeb drwyddi draw. Efallai y bydd athrawon yn penderfynu hepgor rhai gweithgareddau, yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a gwybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion eu dysgwyr ar hyn o bryd. Efallai hefyd y bydd yn briodol i wasgaru'r gweithgareddau mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda throsolwg ac mae'n cynnwys amcanion dysgu, canlyniadau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau â'r cwricwlwm. Awgrymir gweithgareddau gydag amseru bras ond nid yw hyn yn cynnwys amser y gall fod ei angen ar gyfer addysgu ychwanegol am rai o'r cysyniadau. Gan y bwriedir i'r sesiynau gael eu defnyddio'n hyblyg, gall cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau'r gweithgareddau i gyd amrywio. Nid yw'r cychwynwyr a'r sesiynau llawn ar y diwedd wedi'u cynnwys gan y tybir y bydd athrawon eisiau cynllunio'r rhain yn unigol. Mae'r holl daflenni adnoddau a gweithgareddau wedi'u rhestru yn nhrosolwg y sesiynau. Hefyd mae sioe

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

sleidiau sy'n cyd-fynd â phob sesiwn.

Gwahaniaethu

Lle y bo hynny'n bosibl mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi'u gwahaniaethu i'ch helpu i gwrdd ag anghenion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gall hyn fod yn ddefnyddiol hefyd wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i gwrdd ag anghenion dysgwyr iau a hŷn.

Grŵp oed

Mae'r adnoddau hyn yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr 9 i 14 oed. Darperir cysylltiadau â'r cwricwlwm ar gyfer CA2 a CA3 yng Nghymru. Ond, gellid addasu llawer o'r gweithgareddau hefyd i'w defnyddio gyda dysgwyr iau neu hŷn.

Nodiadau addysgu pwysig

- *Bwriad y gweithgareddau a'r adnoddau hyn yw cefnogi eich addysgu, yn hytrach na'i lywio. Gall fod angen rhagor o addysgu er mwyn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr am rai cysyniadau.*
- *Mae peth cynnwys, fel y gwybodaeth gefndirol am anghydraddoldeb, wedi'i ailadrodd yn y sesiynau penodol i bwnc. Efallai bydd athrawon sy'n defnyddio un o'r sesiynau hyn eisiau gwirio nad ydy'r dysgwyr wedi cwmpasu unrhyw ran o'r cynnwys mewn meysydd cwricwlwm eraill.*
- *Mae peth o'r data yn yr adnodd hwn, fel y data o Fanc y Byd, yn debygol o newid. Felly efallai y gwelwch chi, os yw eich dysgwyr yn dod o hyd i ddata o'r Rhyngrwyd eu hunain, fod eu ffigurau ychydig yn wahanol i'r rhai sydd wedi'u cyhoeddi yn yr adnodd hwn, a oedd yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi.*
- *Roedd pob un o'r dolenni gwe a ddarperir yn gywir pan gafodd yr adnodd ei gyhoeddi.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Chwarae Teg? – Disgrifiad manwl o'r adnodd

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Mathemateg: *Mesur y bylchau*	• Dehongli data mewn tablau a defnyddio canrannau i gymharu symiau. • Cyflwyno data mewn siart bar. • Deall nad oes gan y gwledydd sy'n cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd siawns gyfartal i ennill medalau a chydnabod bod incwm y wlad, ynghyd â ffactorau eraill, yn gallu effeithio ar nifer y medalau y mae gwlad yn ei hennill. • Gwybod y gall anghydraddoldeb fodoli o fewn gwledydd hefyd a rhoi rhifau yn eu trefn a'u marcio ar raddfa i ddangos "sgoriau tegwch" gwahanol wledydd.	• Bydd y dysgwyr yn dehongli data mewn tabl er mwyn cymharu canrannau'r gwledydd mewn gwahanol grwpiau incwm sy'n ennill o leiaf un fedal Olympaidd. • Bydd y dysgwyr yn cyflwyno data mewn siart bar er mwyn cymharu canran y gwledydd mewn gwahanol grwpiau incwm sy'n ennill medalau Olympaidd mewn gwahanol gampau Olympaidd. • Bydd y dysgwyr yn rhoi'r gwledydd ar raddfa yn ôl "sgôr tegwch" sy'n dangos lefel yr anghydraddoldeb ym mhob gwlad.	• Pa ffactorau allai effeithio ar faint o athletwyr sydd gan wlad a sawl medal y mae'n eu hennill (os o gwbl)? • Pa gampau allai fod ag ychydig o athletwyr neu ddim athletwyr o gwbl o wledydd incwm is sy'n cymryd rhan ac yn ennill medalau? Pam rydych chi'n meddwl hyn? • Pa gampau allai fod â mwy o athletwyr o wledydd incwm is yn cymryd rhan? Pam rydych chi'n meddwl hyn?	• Gweithgaredd 1: *Cyfrifo'r medalau a'r athletwyr* • Gweithgaredd 2: *Incwm ac anghydraddoldeb medalau.* • Gweithgaredd 3: *Campau Olympaidd – yn agored i bawb?* • Gweithgaredd 4: *Bylchau o fewn gwledydd*	• *Chwarae Teg?* Sioe sleidiau Mathemateg: sleidiau 1–18 • Taflenni adnoddau 1. *Medalau ac Athletwyr* 2. *Cymedr y medalau i bob athletwr - llawn* • Taflenni gweithgareddau: 1. *Cymedr y medalau i bob athletwr - gwag* 2. *Gwledydd incwm isel* 3. *Gwledydd incwm canolig is* 4. *Gwledydd incwm canolig uwch* 5. *Gwledydd incwm uchel* 6. *Campau Olympaidd – yn agored i bawb?* 7. *Siart bar A* 8. *Siart bar B* 9. *Graddfa A Sgôr tegwch* 10. *Graddfa B Sgôr tegwch*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Daearyddiaeth: *Bylchau rhwng gwledydd*	• Adnabod rhai ffyrdd y mae pobl ifanc yn y DU wedi'u cysylltu â gwledydd a phobl eraill yn y byd. • Datblygu sgiliau daearyddol wrth ddefnyddio mapiau a dadansoddi a dehongli gwahanol ffynonellau data. • Nodi rhai anghydraddoldebau sydd rhwng gwahanol wledydd ac o'u mewn.	• Bydd y dysgwyr yn edrych ar y cysylltiadau sydd ganddyn nhw a'u cyfoedion â gwledydd ac â phobl eraill yn y byd. • Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm *Trympiau Olympaidd* i nodi a thrafod enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng gwledydd. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio lliwiau i gynrychioli rhai o'r anghydraddoldebau hyn ar fap o'r byd.	• Sut rydyn ni wedi ein cysylltu â gwledydd ac â phobl eraill yn y byd? • Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng gwledydd a welsoch chi? • Beth allai fod yn rhesymau dros yr anghydraddoldebau hyn, yn eich barn chi? • Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam rydych chi'n meddwl hyn?	• Gweithgaredd 1: *Globingo* • Gweithgaredd 2: *Cydradd neu anghydradd?* • Gweithgaredd 3: *Trympiau Olympaidd* • Gweithgaredd 4: *Mapio'r anghydraddoldeb rhwng gwledydd*	• *Chwarae Teg?* Sioe sleidiau Daearyddiaeth: sleidiau 1–21 • Darnau mawr o bapur (un ar gyfer pob grŵp o dri dysgwr) • Setiau o bensiliau lliw gyda dau i bedwar arlliw gwahanol o rai lliwiau • Taflenni adnoddau 1. *Cardiau Trympiau Olympaidd* 2. *Incwm cyfartalog y person* 3. *Cyfanswm y medalau Olympaidd* 4. *Data Trympiau Olympaidd* • Taflenni gweithgareddau: 1. *Globingo* 2. *Mapio'r incwm cyfartalog y person* 3. *Mapio cyfanswm y medalau Olympaidd* 4. *Mapio'r anghydraddoldeb rhwng gwledydd*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Cymraeg: *Bywydau cydradd neu anghydradd?*	• Datblygu sgiliau trafod. • Deall beth yw anghenion a hawliau sylfaenol pob person a chydnabod nad yw'r anghenion hyn yn cael eu cwrdd weithiau yn Rio de Janeiro, fel sy'n wir am nifer o ddinasoedd o gwmpas y byd. • Chwarae rôl a datblygu empathi tuag at y rhai na allant gyflawni eu hanghenion sylfaenol a mynnu eu hawliau. • Ystyried beth yw goblygiadau dinas (neu wlad) yn gwario llawer iawn o arian ar ddigwyddiad chwaraeon mawr fel y Gemau Olympaidd.	• Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm, *Gwybod ble mae eich lle*, er mwyn dechrau deall beth yw ystyr anghydraddoldeb a sut mae'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn cymdeithas. • Bydd y dysgwyr yn chwarae "gêm agored i niwed" er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae anghydraddoldebau rhwng bywydau bobl yn Rio de Janeiro, fel sy'n wir am lawer o ddinasoedd o gwmpas y byd, a hynny yn ei dro'n effeithio ar ba mor agored i niwed mae pobl. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio gweithgaredd chwarae rôl i ystyried ac edrych ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn Rio de Janeiro'n llwyfannu'r Gemau Olympaidd.	• Pa anghydraddoldebau sydd rhwng y bobl sy'n byw yn Rio de Janeiro? • Sut mae'r anghydraddoldebau hyn yn effeithio ar ba mor agored i niwed mae gwahanol bobl sy'n byw yn y ddinas? • Ydy'r Gemau Olympaidd yn dda neu'n wael i Rio de Janeiro a Brasil?	• Gweithgaredd 1: *Gwybod ble mae eich lle* • Gweithgaredd 2: *Gêm anghydraddoldeb* • Gweithgaredd 3: *O blaid neu yn erbyn y Gemau Olympaidd?*	• *Chwarae Teg?* Sioe sleidiau Gymraeg: sleidiau 1–12 • Tua 30 botwm neu sticer • Nodiadau gludiog, un i bob dysgwr • Taflenni gweithgareddau: 1. *Cardiau rôl gêm anghydraddoldeb* 2. *Cardiau rôl o blaid y Gemau Olympaidd* 3. *Cardiau rôl yn erbyn y Gemau Olympaidd*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Addysg gorfforol: *Chwarae teg i bawb*	• Ystyried sut gall rheolau wneud i gampau fod yn decach neu'n llai teg i bawb gymryd rhan. • Penderfynu sut mae newid y rheolau mewn rhai campau Olympaidd er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan. • Cymharu rheolau mewn chwaraeon i reolau sy'n helpu i wneud i'r gymdeithas fod yn decach.	• Bydd y dysgwyr yn trefnu ac yn rhedeg "Diwrnod Chwarae Teg" sy'n galluogi pob dysgwr i gymryd rhan yn llawn.	• Sut mae'r byd yn annheg? • Beth yw ystyr "gweithredu"? • Sut gallwn ni weithredu?	• Gweithgaredd 1: *Chwarae teg i bawb* • Gweithgaredd 2: *Cynllunio "Diwrnod Chwarae Teg"* • Gweithgaredd 3: *"Diwrnod Chwarae Teg"* • Gweithgaredd 4: *Gwerthuso ein "Diwrnod Chwarae Teg"*	• *Chwarae Teg? Sioe sleidiau* Addysg Gorfforol: sleidiau 1–22 • Taflenni gweithgareddau: 1. *Rheolau tegwch* 2. *Arwyddair tegwch*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Dinasyddiaeth fyd-eang

Adnodd dinasyddiaeth fyd-eang yw hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer athrawon daearyddiaeth, Cymraeg, mathemateg ac addysg gorfforol gyda rhai 9 i 14 oed. Methodoleg yw addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang i helpu pobl ifanc i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang gweithredol. Mae Oxfam yn awgrymu dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu i helpu i strwythuro gweithgareddau dinasyddiaeth fyd-eang ac i roi cyfle i bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am sut mae eu datrys, ac ymddwyn fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Efallai mai'r gweithredu fydd chwilio am ragor o wybodaeth neu feddwl yn fanylach am fater. Hefyd gall gynnwys gwneud i eraill fod yn fwy ymwybodol o fater neu gall ymwneud â gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol yw:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygiad cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Grym a llywodraethu	• Meddwl creadigol a beirniadol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth ac adfyfyrio • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Gallu i reoli sefyllfa gymhleth ac ansicr • Gweithredu gwybodus ac adfyfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb • Parch tuag at bobl a hawliau dynol • Gwerthfawrogi amrywiaeth • Consyrn am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Cred y gall pobl achosi newid

Cydnabyddiaeth

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o aelodau o staff Oxfam.

- I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm: http://www.oxfam.org.uk/education

Amodau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y'i defnyddiwch, rhaid ichi gydnabod y ffotograffydd a enwyd ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd y gwaith prosiect. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd drwyddi draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes unrhyw fath o gysylltiad rhwng y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol a'r adnodd hwn.